Cynllun Busnes 2018-19

Cynnwys

1. Cymwysterau Cymru **3**
1.1. Cyflwyniad **3**
1.2. Ein diben **3**
2. Ein strategaethau **4**
2.1. Cynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol **4**
2.2. Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol **4**
2.3. Cynllun Strategol ar gyfer Gallu Corfforaethol **4**
3.0. Yr amgylchedd presennol **4**
4.0. Blaenoriaethau gweithredol 2018-19 ..... **5**
4.1. Cyflwyniad a chyd-destun **5**
4.2. Blaenoriaeth 1 – Ymgymryd â'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â chymwysterau cyffredinol **6**
4.3. Blaenoriaeth 2 – Ymgymryd â'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â chymwysterau galwedigaethol **6**
4.4. Blaenoriaeth 3 – Ymgymryd â'r agweddau rheoleiddio craidd ar ein gwaith **8**
4.5. Blaenoriaeth 4 – Ymgysylltu â'r system gymwysterau yng Nghymru a'i chefnogi **9**
4.6. Blaenoriaeth 5 – Parhau i ddatblygu ein gallu a'n hadnoddau corfforaethol **10**
5. Cyllid a gwariant arfaethedig (2018-19) **12**
6. Monitro ac adolygu **13**
7. Dolenni defnyddiol **13**

1. Cymwysterau Cymru

1.1. Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru. Cawsom ein sefydlu drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru ym mis Awst 2015, a gwnaethom ymgymryd â'n dyletswyddau a'n pwerau ym mis Medi y flwyddyn honno.

2018-19 yw ein trydedd flwyddyn weithredol. Rydym wedi sefydlu ein strategaeth tymor hwy sy'n cynnwys ein cynlluniau strategol ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol ac ar gyfer datblygu ein gallu corfforaethol. Rydym yn edrych ymlaen at barhau â'n rhaglenni gwaith a defnyddio ein rôl fel rheoleiddiwr cymwysterau i gefnogi ac atgyfnerthu'r system gymwysterau yng Nghymru.

Mae'r cynllun busnes hwn ar gyfer 2018-19 yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac mae wedi'i sefydlu yng nghyd-destun y dirwedd cymwysterau bresennol a'n gwaith parhaus. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cymeradwyo gan ein Bwrdd.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth a all fod gennych.

1.2. Ein diben

Fel rheoleiddiwr annibynnol, mae gennym ddau Brif Nod:

> Sicrhau bod cymwysterau (a system gymwysterau Cymru) yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; ac
>
> Ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru.

Golyga hyn fod dysgwyr yn ganolog i'n gweithgareddau. Golyga hefyd ein bod yn gyfrifol am edrych dros y system gymwysterau gyfan i sicrhau ei bod yn gweithio er budd dysgwyr; gan gymryd camau gweithredu neu gynghori eraill i wneud hynny yn ôl yr angen. Rydym yn deall y gwahaniaeth y mae addysg dda yn ei wneud i gyfleoedd bywyd hirdymor a phwysigrwydd gallu dangos sgiliau a gwybodaeth drwy gymwysterau cadarn ac ystyrlon.

Bydd ein diben wedi'i gyflawni pan fydd dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg yn ymddiried mewn cymwysterau rheoleiddiedig yr astudir ar eu cyfer yng Nghymru ac yn eu gwerthfawrogi, a phan fydd y cymwysterau hynny yn cael eu cydnabod ledled y DU ac yn rhyngwladol.

2. Ein strategaethau

Cafodd strategaeth y sefydliad ar gyfer 2018-22 ei chymeradwyo gan ein Bwrdd ym mis Hydref 2017. Gellir gweld y strategaeth yma.

Er mwyn cefnogi strategaeth gyffredinol Cymwysterau Cymru, rydym wedi datblygu tri chynllun sy'n sylfaen iddi dros y 12 mis diwethaf:

2.1 Cynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol

Mae'r cynllun hwn yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer rheoleiddio cymwysterau cyffredinol (TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru) dros y tair blynedd nesaf. Gellir gweld y cynllun yma.

2.2 Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r ffordd y byddwn yn ymdrin â chymwysterau galwedigaethol dros y tair blynedd nesaf. Gellir gweld y cynllun yma.

2.3 Cynllun Strategol ar gyfer Gallu Corfforaethol

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar y ffordd rydym yn gweithredu fel corff corfforaethol. Gellir gweld y cynllun yma.

3. Yr amgylchedd presennol

Mae'r cynllun busnes hwn yn cwmpasu ein trydedd flwyddyn weithredol, ac rydym yn dechrau'r flwyddyn gyda blaenoriaethau a chynlluniau clir. Mae addysg yn dal i fod o ddiddordeb mawr yn wleidyddol ac yn gyhoeddus, ac mae gwahaniaethau'n parhau rhwng polisïau addysg Cymru a Lloegr.

Y llynedd, astudiodd dysgwyr yng Nghymru ar gyfer y cyntaf o'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch diwygiedig newydd. Cydweithiodd rheoleiddwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gynnal safonau. Eleni, bydd mwy o gymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd yn cael eu cyflwyno am y tro cyntaf yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i arwain gwaith ar ddiwygio'r cwricwlwm i ddysgwyr rhwng 3 a 16 oed. Rydym yn rhan o'r broses fel ein bod yn deall lefel y newid ac yn gallu cynghori pa newidiadau y gallai fod angen eu gwneud i gymwysterau. Os yw hyn yn golygu y bydd angen diwygio'r rhan fwyaf o'r cymwysterau y mae dysgwyr 16 oed yn astudio ar eu cyfer, bydd hynny'n rhaglen sylweddol o waith. Rydym yn cynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod yr adnoddau gennym pan fydd angen.

Yn Lloegr, mae gwaith i gyflawni'r Cynllun Sgiliau yn mynd rhagddo, drwy ddatblygu rhaglenni Lefel T. Bydd y cynlluniau i drwyddedu un corff dyfarnu i gyflwyno'r cymwysterau yn cael effaith ar y cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr ar raglenni addysg bellach yng Nghymru. Efallai na fydd rhai cymwysterau presennol yn cael eu cynnig mwyach yng Nghymru. Rydym yn trafod argaeledd Lefelau T i ddysgwyr yng Nghymru gyda'r Adran Addysg yn Lloegr.

Mae'r gwahaniaethau rhwng polisïau prentisiaeth Cymru a Lloegr hefyd yn creu peth ansicrwydd ynghylch argaeledd cymwysterau presennol. Rydym yn monitro'r sefyllfa yn ofalus ac yn trafod yr effaith bosibl gyda Llywodraeth Cymru.

Yng Nghymru, mae ein dau adolygiad cyntaf o'r sector galwedigaethol wedi nodi bod angen cymwysterau newydd yn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol (gan gynnwys Gofal Plant) ac, o bosibl, yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (gan ddibynnu ar ganlyniadau ein hymgynghoriad). Edrychwn ymlaen at wneud newidiadau, drwy weithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid dan sylw.

Mae uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn golygu bod ein gwaith o gynyddu nifer y cymwysterau y gellir astudio ar eu cyfer drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig unwaith eto. Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn adolygu'r ffordd rydym yn gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud popeth y gallwn i gyfrannu at y nod hwn.

O ran deddfwriaeth, rydym yn disgwyl gweld rheoliadau'n cael eu hystyried eleni a fydd yn cadarnhau cwmpas ein pwerau i roi cosbau ariannol, os cânt eu pasio. Rydym hefyd yn disgwyl gweld Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo'r statws 'rheoleiddiwr priodol' (o dan y Ddeddf Cydraddoldeb) i ni.

Byddwn yn penderfynu'n derfynol ar gamau gweithredu i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol pan gânt eu deddfu. Er nad yw rheoliadau wedi cael eu pasio eto i wneud Safonau'r Gymraeg yn gymwys i ni, rydym wedi mabwysiadu llawer o'r rhain ymlaen llaw, heb gael ein gorfodi i wneud hynny. Yn yr un modd, rydym wedi bod yn gweithio yn y ffordd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, heb gael ein gorfodi i wneud hynny. Byddwn yn parhau i weithio tuag at ein hamcanion Cydraddoldeb a Llesiant ac ymgorffori ein polisïau Cymraeg, yn ogystal â sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd yn agos â strategaeth y llywodraeth, Ffyniant i Bawb.

4. Blaenoriaethau gweithredol (2018-19)

4.1. Cyflwyniad a chyd-destun

Mae blaenoriaethau gweithredol 2018-19 yn ategu cynllun y llynedd. Mae pum maes o flaenoriaeth weithredol ar gyfer 2018-19:

1. Ymgymryd â'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â chymwysterau cyffredinol;
2. Ymgymryd â'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â chymwysterau galwedigaethol;
3. Ymgymryd â'r agweddau rheoleiddio craidd ar ein gwaith;
4. Ymgysylltu â'r system gymwysterau yng Nghymru a'i chefnogi;
5. Parhau i ddatblygu ein gallu a'n hadnoddau corfforaethol.

4.2. Blaenoriaeth 1 – Ymgymryd â'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â chymwysterau cyffredinol

Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch diwygiedig ar gyfer Cymru'n unig a Bagloriaeth Cymru yn addas at y diben ac yn cael eu gwerthfawrogi, a bod gan y cyhoedd hyder yn y canlyniadau. Mae ein gwaith monitro'n canolbwyntio ar sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hasesu'n deg a'u gwobrwyo'n gywir a bod cysondeb rhwng un gyfres arholiadau a'r llall.

Yn 2018-19, byddwn yn gwneud y canlynol:

Goruchwylio'r gwaith o bennu a chynnal safonau priodol ym maes cymwysterau cyffredinol
Byddwn yn goruchwylio'r broses a ddefnyddir gan gyrff dyfarnu i sicrhau safonau teg a phriodol o un gyfres arholiadau i'r llall. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill er mwyn cytuno ar ffordd gyffredin o bennu safonau ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch.

Monitro cymwysterau cyffredinol
Byddwn yn parhau i fonitro'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch diwygiedig a Bagloriaeth Cymru yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n effeithiol, eu hasesu'n deg a'u dyfarnu i'r safon briodol.

Gweithredu ar yr argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o Fagloriaeth Cymru
Ym mis Ebrill 2018, gwnaethom gyhoeddi adolygiad o'r Dystysgrif Her Sgiliau a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru. Mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad, byddwn yn sefydlu gweithgor er mwyn datblygu meysydd i'w gwella.

4.3. Blaenoriaeth 2 – Ymgymryd â'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â chymwysterau galwedigaethol:

Yn ein barn ni, cymwysterau galwedigaethol yw'r rhai sy'n asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a/neu sgiliau sy'n ymwneud yn benodol â'r byd gwaith. Felly, dylai cymwysterau galwedigaethol adlewyrchu anghenion cyflogwyr, p'un a ydynt yn arwain at waith neu'r cam dysgu nesaf. O ddydd i ddydd, rydym yn dynodi cymwysterau galwedigaethol yn rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir gan arian cyhoeddus. Fodd bynnag, gan fod miloedd ar filoedd o gymwysterau galwedigaethol ar gael, mae angen i'n gweithgareddau eraill ganolbwyntio ar feysydd gwaith sydd wedi'u targedu'n ofalus. Mae ein gwaith monitro

cymwysterau galwedigaethol yn canolbwyntio ar feysydd sy'n gwneud gwahaniaeth, ac rydym yn cynnal adolygiadau o sectorau economaidd â blaenoriaeth. Rydym yn comisiynu cymwysterau newydd i Gymru pan fydd adolygiad o sector yn nodi bod angen gwneud hynny.

Yn 2018-19, byddwn yn gwneud y canlynol:

Rhoi'r rhaglen monitro cymwysterau galwedigaethol ar gyfer 2018-19 ar waith
Yn 2017-18, gwnaethom fonitro cymwysterau Cymorth Cyntaf yn llwyddiannus. Eleni, byddwn yn canolbwyntio ar gymwysterau Diogelwch Bwyd.

Gweithredu'r ymrwymiadau sy'n deillio o'r adolygiad o'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
Nododd ein hadolygiad o'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, a gyhoeddwyd yn 2016, fod angen cyfres ddiwygiedig o gymwysterau. Yn dilyn proses gystadleuol, rydym wedi comisiynu consortiwm sy'n cynnwys City and Guilds a CBAC i ddatblygu'r gyfres newydd hon. Bydd y cymwysterau newydd yn cael eu datblygu ac, yn amodol ar fodloni ein meini prawf, yn cael eu cymeradwyo erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2019.

Gweithredu'r ymrwymiadau sy'n deillio o'r adolygiad o'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
Ym mis Chwefror 2018, gwnaethom gyhoeddi ein hadolygiad o'r sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig a'n hymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r cymwysterau yn y sector hwn. Byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wrth gynllunio a chymryd ein camau nesaf.

Cwblhau a chyhoeddi'r adolygiad o'r sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
Yn 2018-19, byddwn yn dwyn ynghyd ganfyddiadau ein hadolygiad o'r sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, yn cyhoeddi ein hadroddiad ac yn ymgynghori ar ein camau gweithredu arfaethedig. Erbyn diwedd 2018-19, byddwn yn penderfynu ar ein strategaeth weithredu yng ngoleuni'r ymatebion i'n hymgynghoriad.

Paratoi ar gyfer yr adolygiad o'r sector Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch
Gwyddwn fod angen adolygu'r sector peirianneg a gweithgynhyrchu uwch. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal dros ddwy flynedd, ac yn 2018, byddwn yn pennu cwmpas ac yn cynllunio'r adolygiad hwn ac yn dechrau ceisio barn dysgwyr a rhanddeiliaid.

Rheoli'r camau gweithredu sy'n codi o'r adolygiad o Sgiliau Hanfodol
Ym mis Rhagfyr 2017, gwnaethom gyhoeddi gwerthusiad o'r broses o weithredu'r gyfres Sgiliau Hanfodol er mwyn nodi i ba raddau y mae'r cymwysterau yn diwallu anghenion dysgwyr. Roedd ein hadroddiad yn cynnwys cynllun gweithredu. Drwy gydol 2018-19, byddwn yn gweithio gyda chyrff dyfarnu i roi'r cynllun hwn ar waith, gan gynnwys adolygu'r model asesu o bosibl.

Datblygu polisi, strategaeth a chanllawiau ar faterion cymwysterau galwedigaethol trawsbynciol
Bydd nifer o ddatblygiadau polisi sylweddol yn Lloegr yn effeithio ar y farchnad cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru ac yn Lloegr – gan gynnwys Lefelau T ac asesiadau ar gyfer prentisiaethau. Byddwn yn monitro'r newidiadau yn Lloegr yn ofalus ac yn datblygu'r ffordd rydym yn ymdrin â chymwysterau yn unol â hynny. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid cymwysterau galwedigaethol ym mhopeth a wnawn er mwyn atgyfnerthu'r system gymwysterau.

4.4. Blaenoriaeth 3 – Ymgymryd â'r agweddau rheoleiddio craidd ar ein gwaith

Rydym yn rheoleiddio cymwysterau sy'n cael eu datblygu a'u cyflwyno gan y cyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym. A ôl cael ei gydnabod, bydd rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'r rheolau a bennir gennym. Rydym yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn yr *Amodau Cydnabod* ac yn defnyddio ein pwerau gorfodi a sancsiynu pan na fydd cyrff dyfarnu yn cydymffurfio. Pan fo'n briodol, rydym yn ymyrryd er mwyn sicrhau bod y system yn diwallu anghenion dysgwyr.

Yn 2018-19, byddwn yn gwneud y canlynol:

Adolygu ein Hamodau Cydnabod Safonol
Ein Hamodau Cydnabod Safonol yw'r rheolau y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu gydymffurfio â nhw er mwyn cynnal eu cydnabyddiaeth fel cyrff sy'n gallu cynnig cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru. Dyma ein prif ddogfen reoleiddio. Yn ystod 2018-19, byddwn yn cwblhau'r gwaith o adolygu'r amodau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn glir ac mor effeithiol â phosibl. Os bydd angen, byddwn yn ymgynghori ar amodau diwygiedig ac yn eu cyhoeddi. Caiff canllawiau atodol eu llunio ar gyfer cyrff dyfarnu os bydd yr amodau yn newid.

Monitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu
Rhaid i gyrff dyfarnu gyflwyno datganiad cydymffurfio blynyddol i ni. Byddwn yn adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn erbyn ein hymholiadau ac yn monitro cyrff dyfarnu nad ydynt yn cydymffurfio er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd camau gweithredu priodol i gydymffurfio'n llawn.

Ymgorffori a pharhau i adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau rheoleiddio
Mae gennym raglen dreigl o adolygiadau polisi rheoleiddio, ac yn 2018-19, byddwn yn adolygu detholiad o bolisïau presennol yn unol â'r dyddiad adolygu a gyhoeddwyd. Byddwn hefyd yn adolygu'r ffordd rydym yn cynnal asesiadau effaith. Eleni, byddwn yn gwneud trefniadau gyda'r Tribiwnlys Haen Gyntaf er mwyn sicrhau y gall cyrff dyfarnu ddilyn llwybr apelio clir pan fydd Llywodraeth Cymru wedi pasio rheoliadau sy'n ein galluogi i roi cosbau ariannol.

Prosesu ceisiadau i gydnabod, ildio a dynodi cymwysterau
Byddwn yn parhau â'n gwaith o adolygu ceisiadau gan sefydliadau sydd am ddod yn gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Byddwn hefyd yn prosesu unrhyw geisiadau gan gyrff dyfarnu sydd am i ni ddynodi eu cymwysterau neu sydd am ildio cydnabyddiaeth eu sefydliad, neu eu cydnabyddiaeth am gymhwyster penodol.

4.5. Blaenoriaeth 4 – Ymgysylltu â'r system gymwysterau yng Nghymru a'i chefnogi

Ein blaenoriaeth yw gweithio'n effeithiol gyda'r system gymwysterau yn ei chyfanrwydd yng Nghymru. Rydym yn edrych tuag at allan. Felly, rydym yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn cydweithio er mwyn gwella ein dealltwriaeth a'n gallu i wella cymwysterau er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn gwneud gwaith ymchwil, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid megis ysgolion, colegau, prifysgolion a chyflogwyr ac yn ymgyfarwyddo â'r dirwedd polisi ehangach yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU. Rydym yn adolygu ac yn gwerthuso agweddau ar y system gymwysterau er mwyn ceisio gwella cymwysterau a'r system gymwysterau ehangach, a gwella hyder y cyhoedd ynddynt yn y pen draw.

Yn 2018-19, byddwn yn gwneud y canlynol:

Helpu i gynnal a datblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ymhellach

Byddwn yn parhau i annog mwy o gyrff dyfarnu i gynnig cymwysterau ac asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod 2018-19, byddwn yn gweithio gyda'r cyrff dyfarnu hynny ar yr agenda hon, a byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid (gan gynnwys ysgolion a cholegau) i nodi galw. Byddwn yn parhau i gynnig grantiau i ddatblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg, ac yn cymryd yr amser i ystyried ymhellach y ffordd orau o weithredu'r cynllun. Fel rhan o'n hamserlen o adolygiadau polisi, byddwn hefyd yn adolygu ein polisi cymwysterau ac asesiadau cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog.

Parhau i ddatblygu'r ffordd rydym yn ymgysylltu'n allanol

Byddwn yn parhau i wella ac atgyfnerthu ein sianeli cyfathrebu. Mae ein tîm cefnogi canolfannau yn chwarae rôl hollbwysig wrth gefnogi ysgolion a cholegau, gan sicrhau eu bod yn cyflwyno arholiadau i'w safonau yn effeithiol, yn deg ac yn ddiogel. Byddwn yn parhau i gysylltu â staff mewn ysgolion er mwyn deall yr heriau y maent yn eu hwynebu o ran cymwysterau, a rhoi cymorth lle y gallwn.

Llywio gwaith blaengynllunio ar gyfer cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru

Rydym yn gwneud ymchwil i roi sail dystiolaeth i'n penderfyniadau (a phenderfyniadau eraill bob hyn a hyn), ac i lywio ein gwaith cynllunio ar gyfer y tymor hwy. Yn ystod 2018-19, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cwblhau gwaith ymchwil i drylwyredd a dibynadwyedd asesiadau nas cynhelir drwy arholiadau;
- Ymchwilio i opsiynau ar gyfer set newydd o gymwysterau Cymraeg i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed;
- Cyhoeddi adroddiad ar y ffioedd a godir gan gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau cyffredinol yng Nghymru;
- Mesur a deall hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau.

Parhau i gefnogi rhaglen diwygio'r cwricwlwm ac ystyried y goblygiadau i gymwysterau
Mae datblygu cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol i gymwysterau ar gyfer dysgwyr rhwng 14 a 16 oed. Byddwn yn datblygu ein ffordd o weithio a'n gallu i gefnogi'r rhaglen, a byddwn yn cymryd yr amser i ystyried y goblygiadau i gymwysterau a'r system gymwysterau. Er mwyn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, byddwn yn cynllunio gweithgareddau ymchwil yn ogystal â nodi gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen diwygio cymwysterau cyffredinol yn ddiweddar er mwyn helpu i gefnogi newidiadau i'r cymwysterau. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac eraill ar y broses ddiwygio.

Parhau i feithrin cydberthnasau gwaith effeithiol â chyd-reoleiddwyr ar flaenoriaethau strategol cyffredin
Rydym yn gwerthfawrogi ein cydberthnasau â rheoleiddwyr eraill. Mae'n bwysig ein bod yn meithrin cydberthnasau effeithiol er mwyn ein galluogi i nodi ym mha feysydd rydym yn effeithlon a rhannu arfer da. Mae angen i ni gofio hefyd effaith yr hyn rydym yn ei wneud ar gyrff dyfarnu sy'n cael eu rheoleiddio gan fwy nag un rheoleiddiwr. Yn 2018-19, byddwn yn ceisio gwella ein cydberthnasau ymhellach drwy ddatblygu cytundebau rhannu gwybodaeth â rheoleiddwyr eraill.

4.6. Blaenoriaeth 5 – Parhau i ddatblygu ein gallu a'n hadnoddau corfforaethol

Fel sefydliad ifanc, rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i wella ein gallu corfforaethol a'n henw da gyda rhanddeiliaid. Rydym yn ceisio gwneud penderfyniadau cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn gwrando ar randdeiliaid ac yn rhoi gwybodaeth glir. Rydym am barhau i ennyn ymddiriedaeth drwy ddulliau rheoli adnoddau cadarn sy'n arferion corfforaethol effeithiol a chydsyniol.

Yn 2018-19, byddwn yn gwneud y canlynol:

Parhau i ddatblygu aeddfedrwydd swyddogaethau gwasanaethau cyllid a chorfforaethol er mwyn helpu a herio'r sefydliad i ddefnyddio'i adnoddau yn y ffordd orau bosibl gan gynnal cydymffurfiaeth a diogelu ein henw da yn y meysydd canlynol:
• Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol; • Llywodraethu Corfforaethol; • Cyfleusterau; • Cyllid; • Adnoddau Dynol; • Technoleg Gwybodaeth; • Caffael.

Cyflawni strategaeth y gweithlu

Yn 2017-18, gwnaethom ddatblygu ein dull gweithredu mewn perthynas â strategaeth y gweithlu, sy'n nodi sut y byddwn yn meithrin, yn datblygu ac yn gwella gallu ein sefydliad i gyflawni'r prif nodau a'n blaenoriaethau strategol. Eleni, byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni'r strategaeth yn y meysydd canlynol:

- Llywio'r gweithlu;
- Datblygu ein gallu/sgiliau;
- Llesiant;
- Bod yn sefydliad dwyieithog;
- Diwylliant a gwerthoedd.

Datblygu a chyflawni ein cynllun gweithredu ar gyfer iechyd, diogelwch a llesiant

Byddwn yn datblygu ein cynllun gweithredu ar gyfer iechyd, diogelwch a llesiant. Bydd hyn yn cynnwys cyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol, gan gydnabod pwysigrwydd iechyd a llesiant yn y gweithle.

Sefydlu'r gallu'n llawn i gasglu a chyhoeddi data ar arholiadau

Yn 2017-18, gwnaethom ddechrau prosiect i'w gwneud yn bosibl i ni ddechrau casglu data ar gymwysterau a ddyfarnwyd yn uniongyrchol gan gyrff dyfarnu yng Nghymru. Rydym yn defnyddio'r data hyn i ategu ein gweithgareddau monitro a'n gwaith ar ymchwil a chyhoeddiadau ystadegol. Gwnaethom gyhoeddi ein data ar gymwysterau cyffredinol am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2017. Yn 2018-19, byddwn yn canolbwyntio ar lunio ein cyhoeddiad ystadegol cyntaf ar gymwysterau galwedigaethol.

Rhoi ein cynllun gweithredu ar gyfer y Gymraeg ar waith

Er nad yw rheoliadau wedi cael eu pasio eto i wneud Safonau'r Gymraeg yn gymwys i ni, rydym wedi dewis gweithio tuag at lawer ohonynt, heb gael ein gorfodi i wneud hynny. Mae gennym gynllun gweithredu, a byddwn yn canolbwyntio ar ymgorffori'r Safonau yn y sefydliad, gyda phwyslais ar ymgysylltu â'r cyhoedd.

5. Cyllid a gwariant arfaethedig (2018-19)

Mae Cymwysterau Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ein dyraniad grant ar gyfer 2018-19 yw £8.042m.

Mae gennym Gynllun Cyllid Tymor Canolig, a gafodd ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Mawrth 2018 ar gyfer y cyfnod rhwng 2018-19 a 2020-21. Mae hyn yn dangos sut y gellir rheoli ein gweithgareddau disgwyliedig a chostau cysylltiedig o fewn lefelau cyllido disgwyliedig dros y cyfnod hwn.

Ar lefel gryno, mae ein cyllideb ar gyfer 2018-19 fel a ganlyn:

Maes Cyllidebol	**Cyllideb 2018-19 £'000**
Cyflogau	**4,761**
Grantiau	**1,020**
Costau Rhaglenni	**899**
Costau Rhedeg	**1,362**
Cyfanswm	**8,042**

Mae gennym hefyd gronfa wrth gefn o £500k ar ein mantolen ar gyfer talu'r costau sy'n gysylltiedig â'n rhaglen adnewyddu TGCh a'n prosiect casglu data, a byddwn yn defnyddio'r arian hwn yn ôl yr angen yn 2018-19 wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau yn y meysydd hyn.

Yn 2018-19, byddwn hefyd yn dechrau darparu gwasanaethau cymorth TGCh i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol, ac rydym yn disgwyl lefel gymedrol o incwm o hyn. Byddwn yn cynnwys hyn yn ein rhagdybiaethau pan fyddwn yn sicr o lefel y gwasanaeth i'w darparu.

Wrth i ni ymwneud yn fwy â'r rhaglen diwygio cymwysterau cyffredinol yn ystod 2018-19, mae'n debygol y byddwn yn dechrau mynd i gostau ychwanegol. Rydym ar ddeall bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl rhoi cyllid ychwanegol os na allwn dalu costau'r gweithgareddau ychwanegol hyn gyda'n cyllid craidd.

Mae'r diagram isod yn dangos sut rydym yn bwriadu gwario ein cyllideb o £8.042m:

6. Monitro ac adolygu

Rydym yn monitro cynnydd yn erbyn ein cynlluniau yn rheolaidd, gan gyflwyno adroddiadau bob mis i'n Bwrdd Rheoli mewnol ac adroddiadau bob chwarter i'n Bwrdd. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o gyflawniadau yn ystod y flwyddyn yn ein cyfrifon diwedd blwyddyn. Byddwn hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein gweithgareddau a'n cyflawniadau yn ein hadroddiad blynyddol (ar gyfer y flwyddyn academaidd o fis Medi 2017 i fis Awst 2018). Rydym yn cyflwyno ein hadroddiad blynyddol er mwyn i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad graffu arno; mae hyn yn rhan o'n gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

7. Dolenni defnyddiol

Gweler isod ddolenni i rai dogfennau defnyddiol a all roi mwy o gyd-destun i'r Cynllun Busnes hwn:

- Gwefan Cymwysterau Cymru
- Cyfrifon Blynyddol 2016-17
- Adroddiad Blynyddol 2017
- Strwythur Bwrdd Cymwysterau Cymru
- Strwythur Gweithredol Cymwysterau Cymru